# Sut i baratoi ar gyfer pryd y gallwch adael eich adar tu allan eto

Mae ffliw adar (ffliw adar) yn cael ei ledaenu rhwng adar trwy gyswllt uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy garthion, baw, gwrthrychau halogedig, tir neu ddŵr. Os yw dofednod, fel ieir neu dwrcwn, wedi'u heintio â ffliw adar byddant yn debygol o ddangos arwyddion o salwch, tra bo adar y dŵr, fel hwyaid a gwyddau yn gallu mynd yn sâl ond hefyd yn gallu cario'r firws heb ddangos arwyddion a gallant ei ledaenu'n hawdd i adar eraill heb fod unrhyw arwyddion o'r adar yn cael eu heintio.

Mae'r risg uwch o ffliw adar o bob adar gwyllt ac amgylchedd halogedig yn debygol o barhau yn y DU am sawl wythnos neu o bosib fisoedd, ond mae sawl cam y gallwch eu cymryd i helpu i ddiogelu eich adar.

# Camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd i amddiffyn eich adar

**Gwnewch y man crwydro (yr ardal awyr agored y mae gan yr adar fynediad ati) yn anneniadol i adar gwyllt, yn enwedig adar y dŵr gwyllt, *corvids* (e.e. brain a phiod), neu wylanod**

- **Rhowch rwyd ar byllau neu eu gorchuddio** – rhaid i chi osod rhwyd neu orchuddio unrhyw byllau sydd o fewn yr ardal â ffens. Dylech hefyd ystyried osod rhwyd dros byllau neu grynofeydd dŵr mwy, o fewn 100 m i berimedr yr ardal awyr agored os o fewn eich safle. Os nad yw hyn yn bosibl, dylech gymryd camau i atal adar rhag cael mynediad atynt.
- **Gosodwch ffens o amgylch pyllau, nentydd, merddwr neu ardaloedd gwlyb neu gorsiog** – tra bo'r Parth Atal Ffliw Adar (AIPZ) dal mewn grym, rhaid peidio â chaniatáu i ddofednod gael mynediad at ardaloedd o amgylch pyllau, nentydd, camlesi neu ardaloedd gwlyb eraill, gan fod mwy o risg bod yr ardaloedd hyn wedi'u halogi gan faw adar gwyllt.
- **Gwaredwch unrhyw ffynonellau bwyd i adar gwyllt** – gwiriwch y man crwydro a'r ardaloedd cyfagos am unrhyw ffynonellau porthiant a allai ddenu adar gwyllt: mae'r rhain yn fwyaf tebygol o fod yn gysylltiedig ag ardaloedd gwlyb, ond hefyd yn cynnwys grawn wedi colli, hadau, a biniau bwyd anifeiliaid heb glawr. Rhaid i'ch adar gael eu bwydo dan do.

## Cadwch adar gwyllt i ffwrdd o'r man crwydro

Mae sawl ffordd bosibl o atal adar gwyllt (yn arbennig gwylanod ac adar y dŵr gwyllt) rhag glanio a bwyta yn y man crwydro. Mae'r rhain yn cynnwys, archwilio'r ardal yn rheolaidd, defnyddio ysglyfaethwyr i'w dychryn i ffwrdd a defnyddio cyfarpar

gweledol sy’n dychryn adar gwyllt neu ddyfeisiau newydd eraill sy’n codi ofn ar adar (er enghraifft, laserau golau). Gall dyfeisiau codi ofn ar adar wylltio a tharfu ar y cyhoedd a gall fod cyfyngiadau lleol ar eu defnydd, felly defnyddiwch nhw mewn ffordd ystyriol. Mae Canllawiau Arfer Da i'w gweld yng Nghod Ymarfer Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)..

## Dihalogi a diheintio'r man crwydro

Os nad yw'r man crwydro wedi'i ddefnyddio ers sawl mis, efallai ei fod wedi'i halogi gan ysgarthion adar gwyllt neu blu. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych yn newid yr ardal y mae gan yr adar maes fynediad ati. Er enghraifft, wrth symud eirch symudol neu osod ffensys o amgylch ardaloedd na ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer dofednod.

Gall y feirws sy'n achosi ffliw adar barhau i fod yn heintus mewn ysgarthion neu faw a deunydd halogedig eraill am tua 50 diwrnod (hirach mewn amodau gwlyb neu mewn merddwr). Os yw adar gwyllt wedi cael mynediad at eich mannau crwydro ac ardaloedd awyr agored eraill, rhaid i chi gymryd camau i leihau lefelau halogi.

Gallech:

- **Lanhau a diheintio concrit ac ardaloedd anathraidd eraill** – defnyddiwch ddiheintydd wedi’i gymeradwyo gan y llywodraeth ar y gyfradd wanhau a argymhellir ar gyfer y Gorchymyn Clefydau Dofednod. Rhaid dilyn mesurau atal llygredd priodol (gweler yr adran isod).
- **Dihalogi’r man crwydro** – efallai y bydd modd lleihau lefel y feirws sy'n bresennol mewn ardaloedd sydd wedi'u halogi'n drwm drwy ddatgelu'r wyneb i olau'r haul a sychu, e.e., gan dorri’r glaswellt (paid ag anghofio i lanhau a diheintio'r offer a ddefnyddir). Archwiliwch eich amrediad yn rheolaidd a thynnu unrhyw halogon amlwg o adar gwyllt (megis ysgarthion neu blu) mewn modd bioddiogel. Gallwch gael gwared hwn drwy sgrafellu, tra leihau aflonyddwch pridd, er mwyn osgoi denu adar gwyllt, ac yna defnyddio rhai ’diheintyddion wedi'u cymeradwyo gan y llywodraeth http://disinfectants.defra.gov.uk/DisinfectantsExternal/Default.aspx?Module=ApprovalsList_SI ar y gyfradd wanhau a argymhellir. Bydd nifer o ddiheintyddion sydd wedi’u cymeradwyo yn anweithredol unwaith y cânt eu chwistrellu ar ddeunydd organig (fel pridd) felly nid ydynt yn debygol o fod yn effeithiol. Dylech ymgynghori â'r gwneuthurwr am gyngor ynghylch a yw'r cynnyrch yr ydych am ei ddefnyddio yn debygol o fod yn effeithiol a dilyn mesurau atal llygredd priodol.
- **Draenio mannau gwlyb ac ardaloedd o ferddwr** – Yn y tymor hwy ac yn amodol ar gael y caniatâd a'r cytundebau angenrheidiol, ystyriwch a yw'n bosibl llenwi neu ddraenio unrhyw byllau parhaol neu ardaloedd o ferddwr neu ardaloedd tir isel sy'n aml yn dioddef llifogydd.Ymgynghorwch â'r awdurdodau perthnasol cyn ymgymryd ag unrhyw waith parhaol a allai effeithio ar fioamrywiaeth.

## Lleihau lledaeniad gan bobl neu wrthrychau

- Dylech gyfyngu ar nifer y bobl sydd â mynediad at y man crwydro a sicrhau nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad ag unrhyw ddofednod neu adar eraill.
- Os oes yn rhaid i bobl fynd i mewn i'r man crwydro, dylech sicrhau bod ganddynt esgidiau pwrpasol a dillad allanol amddiffynnol. Rhaid defnyddio dipiau traed dan orchudd wrth fynd i mewn ac ymadael â thai ac ardaloedd/mannau crwydro awyr agored lle cedwir adar. Cofiwch newid neu ddiheintio'ch esgidiau wrth fynd i mewn i dai o'r man crwydro.
- Ail-dyblwch eich gofal ynghylch rhwystrau bioddiogelwch personél er mwyn osgoi cerdded carthion adar gwyllt mewn i'r tŷ.

## Diheintyddion: atal a rheoli llygredd

Nid oes angen i chi gael cymeradwyaeth flaenorol gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) yn yr Alban, na Cyfoeth Naturiol Cymru cyn defnyddio unrhyw ddiheintyddion ar ardaloedd concrit neu ardal y man crwydro ar yr amod fod cyfaint a chrynodiad y diheintydd a ddefnyddir yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ac ar y gyfradd wanhau a argymhellir.

Rhaid dilyn mesurau atal llygredd priodol ym mhob achos er mwyn atal dŵr ffo gormodol a heb reolaeth ar ôl defnyddio diheintydd. Ni ddylid defnyddio diheintyddion yn agos at gyflenwadau dŵr yfed na chrynofeydd dŵr.

Yng Nghymru mae'n ofyniad cyfreithiol i bob ceidwad yn y Parth Atal Ffliw Adar gwblhau rhestr wirio hunanasesiad bioddiogelwch sydd i'w gweld yma."

Ebrill 2023